



Sefydliad Glowyr Llanhilledd Blaenau Gwent, Cymru



Mae Sefydliad Glowyr Llanhilledd yn darparu cyswllt byw â hanes diwydiannol Cwm Ebwy Fach. Mae'r Sefydliad yn adeilad rhestredig Graddfa II ym mhentref Llanhilledd. Mae'n lleoliad unigryw sy'n cynnal cynadleddau, priodasau, y celfyddydau ac adloniant byw; yn ogystal â bod yn ganolbwynt ac yn adnodd i'r gymuned leol.

Cysylltodd Sefydliad Glowyr Llanhilledd â Pentref SOS – a WCVA, un o'r partneriaid a oedd yn rhoi'r Ymgyrch ar waith – am gymorth i amrywio ei ffrydiau incwm, canfod cyfleoedd newydd am gyllid a sut i ddal y ddysgl yn wastad rhwng yr angen i greu incwm ac anghenion y gymuned leol.

MANNYLION Y PROSIECT.....

Rhoddwyd tîm y prosiect at ei gilydd o blith staff a gwirfoddolwyr yn Sefydliad Glowyr Llanhilledd.

Camau a gymerwyd gyda chymorth VSOS:

- Rhoddodd WCVA dim y prosiect mewn cysylltiad â Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru i ystyried y gweithgareddau a oedd eisoes yn digwydd yn y Sefydliad a sut y gellid gwella a hybu hyn.
- Cynorthwyodd WCVA dim y prosiect i ystyried y cydbwysu rhwng creu incwm a grantiau traddodiadol – gan gynnwys potensial darparwyr benthyciadau trydydd sector.
- Rhoddodd WCVA dim y prosiect mewn cysylltiad â Cymunedau Digidol Cymru i asesu gweithgareddau cynhwysiant digidol y Sefydliad.
- Hyrwyddodd WCVA y lleoliad drwy ei rwydwaith marchnata.



Cadw mewn cysylltiad...

Sefydliad Glowyr Llanhilledd, Meadow Street,
Llanhilledd, Ger Abertyleri, Blaenau Gwent,
NP13 2JT

Ffôn: 01495 354 674

Ebost: jodie.peddle@llanhillethinstitute.com

Gwefan: www.llanhillethinstitute.com/



Cymorth arall mynediad...

Gweithiodd y prosiect gyda'r mudiadau canlynol hefyd:

- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Busnes Cymdeithasol Cymru (Canolfan Cydweithredol Cymru)
- Y Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol, sef Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Sefydliad Lloyds TSB



Mae'r Sefydliad yn rhoi lle i fudiadau cymunedol sy'n rhoi incwm rhent iddo (e.e. Cyngor ar Bopeth, Cymunedau yn Gyntaf, Celf ar y Blaen a Breaking Barriers). Ar ôl adolygu gweithgareddau a chyllid y Sefydliad, mae'r mudiad yn dal y ddysgl yn wastad rhwng yr angen i greu incwm ac anghenion y gymuned leol.

Yn dilyn y gwaith a gwblhawyd gyda Sefydliad Glowyr Llanhilledd gan WCVA, yn credu y grŵp fod y canlynol yn 2 egwyddorion craidd y gallai grwpiau eraill yn dysgu oddi wrth:

- Mae ar fudiadau angen strategaethau codi arian cadarn, hyblyg ac amrywiol.
- Mae angen i chi feithrin perthynas dda â rhanddeiliaid lleol a darparwyr cymorth.

Beth sy'n dod nesaf?

- Mae tîm y prosiect bellach yn ystyried sut i farchnata'r lleoliad yn fwy effeithiol – gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau arlein eraill.
- Mae'r Sefydliad yn gobeithio parhau i amrywio ei ffrydiau incwm wrth wasanaethu anghenion pobl leol.

Other useful sources of support...



Social Business Wales
www.businesswales.gov



Digital Communities Wales
www.digitalcommunities.gov.wales



GAVO
www.gavowales.org.uk



Heritage Lottery Fund
www.hlf.org.uk

WCVA

This case study was produced by Wales Council for Voluntary Action as one of the Village SOS partners in Wales.

INFRASTRUCTURE AND COUNTRY PARTNERS

